



Eich cyf/Your ref: DC/JMHSC/02871/25

Ann Lloyd – Cadeirydd
Nicola Prygodzicz – Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

12 Chwefror 2026

Annwyl Ann a Nicola,

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 04 Rhagfyr 2025. Diolch ichi a'ch tîm am fod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gyflawni ar ran y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif am gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau – gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni gweithredol yn ystod y flwyddyn, sefydlogrwydd ariannol, ansawdd a diogelwch a rheoli risgiau allweddol.

Diolch ichi am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwnnw yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae'r recordiad o'r cyfarfod i'w weld [yng nghyfarfod atebolrwydd cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#).

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Roedd ein trafodaethau yn eang ac yn cwmpasu cynllunio ariannol, darparu gwasanaethau, perfformiad ysbytai, gofal cymunedol, anghydraddoldebau iechyd, diwylliant staff, a datblygiadau strategol. Byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

Ystyriwyd perfformiad ariannol yn fanwl. Bu ichi ddweud bod rhagolwg y Bwrdd yn adlewyrchu dirywiad ers eich cynllun ariannol cytbwys gwreiddiol a gymeradwywyd gan y bwrdd i ddiffyg sylweddol o £19.9m yn ystod y flwyddyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe wnaethoch gadarnhau y byddai'r rhagolwg hwn yn gwella yn y cyflwyniad monitro nesaf a dweud y gallai'r diffyg hwn fod wedi bod yn sylweddol uwch heb yr arbedion a gyflawnwyd gan y bwrdd iechyd. Mae'r diffyg parhaus yn cael ei sbarduno gan bwysau mewn meysydd megis gofal iechyd parhaus, rhagnodi a galw ychwanegol. Trafodwyd i ba raddau y gellid bod wedi rhag-weld a chynllunio ar gyfer yr heriau a wynebwyd yn eich gwaith cynllunio ar gyfer y flwyddyn. Bu ichi dynnu sylw at yr heriau yr ydych wedi'u cael wrth weithredu'r cynllun arbedion y cytunwyd arno a rhannu nifer o bwysau heb eu cynllunio megis costau cynyddol rhagnodi a meddyginiaethau yn ogystal â heriau o ran gwariant gofal iechyd parhaus sydd wedi cynyddu 11%.

Er bod y Bwrdd wedi arbed dros £100 miliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'n her ichi gyflawni arbedion pellach eleni heb effeithio ar ymrwymadau cyflawni eraill. Fe wnaethoch gadarnhau bod y Bwrdd yn glir am yr angen am ail-gyflunio gwasanaethau yn barhaus a mwy o welliannau cynhyrchiant i gefnogi cynaliadwyedd ariannol, a'r angen i adfer eich sefyllfa ariannol yn y tymor byr.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod pwysau gofal brys yn cyfrannu at wariant heb ei gynllunio, ond mae cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd, gwelliannau cynhyrchiant a'r gweithlu. Mae gwariant y gweithlu, yn enwedig ar staff asiantaeth a locwm, yn dal yn uwch na'r disgwyl, gyda phwysau nodedig mewn meddygaeth aciwt, gofal brys, ac iechyd meddwl. Fe wnaethoch chi nodi bod bwrdd gwerth a chynaliadwyedd y bwrdd iechyd yn edrych ar dâl a chostau cysylltiedig megis staff banc ac asiantaeth, meddyginiaeth, Gofal Iechyd Parhaus (GIP), cynhyrchiant, hyd arosiadau ac effeithlonrwydd theatrau. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran rhestrau dyletswyddau a rheolaethau'r gweithlu, gofynnodd swyddogion am fwy o eglurder ar ffactorau sy'n rheoli costau ac effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd. Tynnodd trafodaethau ar y rhaglen adfer ariannol sylw at yr angen am oruchwyliaeth fwy trylwyr, eglurder ynghylch disgwyliadau staff ym mhob rhan o'r sefydliad ar reolaeth ariannol a gwell effeithlonrwydd, perchnogaeth gryfach ar gynlluniau, a cherrig milltir cliriach.

Rwyf yn siomedig yn yr alldro hwn ar ôl i gynllun cytbwys gael ei gyflwyno a rhaid imi herio pa mor effeithiol yw gwaith cynllunio'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rhaid i chi bellach gynllunio llwybr credadwy i gydbwysedd ariannol cylchol drwy drawsnewid gwasanaethau, enillion cynhyrchiant, optimeiddio digidol a modelu realistig ar gyfer y gweithlu. Bu ichi gydnabod bod rhaid i'r bwrdd iechyd wneud mwy a chadarnhau y bydd y Bwrdd yn cyflwyno cynllun sy'n gwella ymhellach ar y sefyllfa bresennol. Rwyf yn disgwyl i'r Bwrdd gytuno ar ragolwg diwedd blwyddyn diwygiedig gyda rhaglen arbedion y gellir ei chyflawni ochr yn ochr ag adolygiad cynhwysfawr o wariant y gweithlu, y defnydd o asiantaethau a gostyngiadau arfaethedig.

Rhoddodd y Bwrdd drosolwg o'r heriau ansawdd a diogelwch sy'n bodoli, gan nodi pwysau parhaus ar draws gofal brys ac argyfwng a'r effaith y mae'r pwysau hyn yn ei chael ar amseroldeb a diogelwch triniaeth. Er fy mod yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â phryderon diogelwch, rwyf yn dal i bryderu am eich perfformiad ym maes digwyddiadau difrifol.

Bu ichi dynnu sylw at y cynnydd wrth ddatblygu fframwaith canlyniadau ansawdd a gwaith ar brofiad y claf, gan gynnwys defnyddio adborth amser real a mesurau

canlyniadau a phrofiad a adroddir gan gleifion (PROMs/PREMs) ac ymgysylltu â chymunedau y mae eu canlyniadau a'u mynediad yn dal yn gymharol wael. Er hynny, yn dilyn ein trafodaeth ynghylch eich gwasanaethau iechyd meddwl a newyddenedigol, rwyf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd pellach o ran ansawdd a diogelwch yn ogystal â rhoi unrhyw gynlluniau gwella ar waith.

Mae perfformiad mewn gofal brys a gofal argyfwng (UEC) yn dal yn un o'r meysydd sy'n peri pryder difrifol. Mae'r pwysau yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn parhau i gael canlyniadau sylweddol i gleifion, gydag amseroedd aros estynedig, lefelau uchel o orlenwi ac oedi mewn asesiadau clinigol cychwynnol yn dod yn nodweddion parhaus ar y system.

Mae'r lefel barhaus o oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys sydd wedi'i hachosi gan argaeledd gwelyau cyfyngedig, hyd arosiadau estynedig a chapasiti cyfyngedig i gleifion yn dal yn annerbyniol ac yn peri risg amlwg i ddiogelwch cleifion. Bu ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ehangu Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (SDEC), y buddsoddiad sylweddol a wnaed i gefnogi'r adran achosion brys trwy'r lolfar yddhau, ehangu'r adran achosion brys (ED) a recriwtio meddygon ymgynghorol ychwanegol, ond mae angen mwy o eglurder ar yr effaith fesuradwy y mae hyn yn ei chael ar orlenwi yn yr ED a derbyniadau y gellir eu hosgoi. Gofynnodd swyddogion a yw'r ysbyty yn cael yr effaith a ddymunir ac a yw'r drefn bresennol yn addas i'r diben o gofio ei fod wedi'i gynllunio i ofalu am gleifion mwy aciwt ond bod llif yn dal yn her anferth ynghyd â diffyg gallu i ddargyfeirio cleifion i ysbytai eraill oherwydd cyfyngiadau capasiti.

Trafodwyd heriau gyda'r adran achosion brys cyn y gaeaf ac er bod gan y Bwrdd gynllun ar waith, trafododd swyddogion a'r bwrdd iechyd yr angen am oruchwyliaeth feunyddiol fwy craff, disgyblaeth uwchgyfeirio a phrosesau cryfach ar gyfer rhyddhau cleifion ar y penwythnos.

Yn dilyn ein trafodaeth, rwyf yn disgwyl i'r bwrdd iechyd gynhyrchu Cynllun Gwella a Sefydlogi cryfach ar gyfer UEC sy'n nodi disgwyliadau clir ar gyfer osgoi derbyniadau, llwybrau i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion a hyd arosiadau, gweithgarwch SDEC a phrosesau llif mewnol gwell, gyda chymorth dull gorchymyn a rheoli cadarn ar gyfer y gaeaf.

Gan droi at ofal a gynlluniwyd, adfer gofal a gynlluniwyd a chanser, croesawyd y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r amseroedd aros hiraf o gofio'r cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae rhai arbenigeddau o dan bwysau, gyda lefelau gweithgarwch yn annigonol i ateb y galw sylfaenol ac mae angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r rhain. Mae perfformiad ym maes canser yn dal yn amrywiol ac yn parhau i gael ei effeithio gan brinder gweithlu arbenigol a gallu diagnostig sy'n dal yn gyfyngiad sylweddol, yn enwedig mewn MRI, CT, ecocardiograffeg ac endosgopi, gydag effaith glir ar RTT a llwybrau canser.


Daeth y cyfarfod i ben gyda thrafodaeth ar lywodraethiant, risg a chynllunio strategol. Gofynnodd swyddogion am sicrwydd pellach bod strwythurau pwyllgorau'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth effeithiol o risgiau gweithredol ac ariannol. Fe wnaethoch ddisgrifio camau diweddar i gryfhau llywodraethiant corfforaethol, gan gynnwys cylchoedd pwyllgorau wedi'u hadnewyddu a threfniadau uwchgyfeirio gwell. Nodwyd cynnydd ar ddatblygiad IMTP 2025-28, er bod angen gwaith pellach i sicrhau bod y

cynllun yn integreiddio bwriad strategol â gallu gweithredol, gofynion y gweithlu a realaeth ariannol. Pwysleisiodd swyddogion hefyd bwysigrwydd cryfhau cydweithredu rhanbarthol, yn enwedig mewn perthynas â diagnosteg a chynaliadwyedd dewisol.

Canolbwyntiodd y cyfarfod hwn, yn briodol felly, ar y meysydd hynny y mae angen eu gwella. Meysydd yw'r rhain lle rwyf yn disgwyl i'r bwrdd wella'r oruchwyliaeth a'r arweinyddiaeth gan sicrhau bod ganddynt well gafael a rheolaeth arnynt, o safbwynt gweithredol ac yn ariannol.

I grynhoi, roedd hwn yn gyfarfod heriol. Rwyf yn gwerthfawrogi ymgysylltiad cadarnhaol y bwrdd iechyd drwy gydol y cyfarfod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd yn agos drwy'r trefniadau atebolrwydd sefydledig, ac rwyf yn disgwyl i'r camau gweithredu a nodir yn y llythyr hwn gael eu cyflawni yn ddi-oed.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care